Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Gethin Rhys

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru)

E-bost / rhif ffôn: gethin@cytun.cymru

Eich cyfeiriad: 58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT.

Cytûn yw'r corff ymbarél ar gyfer y prif enwadau Cristnogol a nifer o fudiadau Cristnogol eraill yng Nghymru. Gellir gweld rhestr gyflawn o'r aelodau yn: http://www.cytun.co.uk/hafan/pwy-ydym-ni/ Mae gan yr aelod enwadau rhyngddynt ryw 150,000 o aelodau sy'n oedolion ymhob cymuned yng Nghymru, a chyswllt ystyrlon â llawer mwy o blant, pobl ifainc ac oedolion.
Paratowyd yr ymateb hwn gan Weithgor Cymru ac Ewrop Cytûn, y mae pob aelod eglwys yn cyfrannu tuag ato, ac fe'i cytunwyd yn ei gyfarfod ar 6ed Mehefin 2019.

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 9 Mehefin 2019.

Ysgrifennwch aton ni:

Llywodraethu'r Amgylchedd,

Uned Ymadael â'r UE a Strategaeth,

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd

CF10 3NQ

Llywodraethiant.Amgylcheddol@llyw.cymru

Egwyddorion Amgylcheddol

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?

Ydyn, rydym yn cefnogi'r awgrym y dylid ymgyrraedd at y fframwaith gyfreithiol gydlynus angenrheidiol ar ôl Brexit trwy adeiladu ar ddeddfwriaeth flaengar Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Ond fe ddylid cynnwys y pedwar egwyddor ar wyneb y ddeddfwriaeth newydd. Nid yw'r ddadl nad oes angen cynnwys yr egwyddorion Rhagofalus ac Atal am eu bod wedi bod yn sail i rai elfennau o ddeddfwriaeth amgylcheddol Cymru yn dal dŵr. Nid oes unrhyw ddatganiad cydlynus o'r pedair egwyddor hyn mewn deddfwriaeth Gymreig, fel y mae Tabl 1 a pharagraff 2.25 y ddogfen ymgynghori yn cydnabod. Dylai deddfwriaeth newydd ymgorffori pob un o'r 4 egwyddor fel egwyddorion sylfaenol y gyfraith, y gall y llysoedd gyfeirio atynt yn syml ac yn ddi-drafferth. Dylai deddfwriaeth anelu at gynnwys yn eang y nodau a restrir yng nghyfarwyddebau fframwaith yr UE, nid cadw dim ond y camau rheoleiddio penodol.

Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?

Mae paragraff 2.15 yn cydnabod bod Deddf yr UE (Ymadael) yn trosi a chadw cyfraith amgylcheddol bresennol yr UE a mae paragraffau 1.3 ac 1.5 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i beidio â chaniatáu dirywiad yn hyn o beth. Rydym yn croesawu hyn, ond nodwn mai'r tebygrwydd yw y bydd safonau'r UE mwy na thebyg yn parhau i godi dros amser. Dylai felly fod egwyddor y bydd Cymru yn cadw aliniad â gwelliannau yn safonau'r UE – fel y bwriadwyd yn y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE (Cymru) 2018, a ddiddymwyd.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?

Ydyn. Dylid ymestyn y ddyletswydd i hybu safonau amgylcheddol a'r 4 egwyddor sylfaenol i holl ddyletswyddau Gweinidogion Cymru, gan fod gan lawer o ddyletswyddau eraill Gweinidogion Cymru effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr amgylchedd, e.e. polisi trethiant (cynyddol bwysig yn y dyfodol), polisïau datblygu economaidd, polisïau trafnidiaeth a thai, ayb. Dylid cyflwyno dyletswydd nid yn unig i gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ond hefyd cymhwyso'r 4 egwyddor sylfaenol a chyfrannu at gwrdd â'r safonau amgylcheddol sy'n deillio o'r rhain.

Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Pob corff cyhoeddus sy'n derbyn arian gan Weinidogion Cymru.

Atebolrwydd

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?

Cytunwn â'r bylchau a nodir.

Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai cyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?

O blith y cyrff atebolrwydd cyfredol, dim ond yr Archwilydd Cyffredinol/Swyddfa Archwilio sydd â'r diwylliant annibyniaeth angenrheidiol; a chytunwn â phara 3.20 na fyddai'n addas i Swyddfa Archwilio Cymru blismona safonau amgylcheddol. Mae dyletswyddau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y dywed para 3.17, yn eu hanfod yn cynnwys gwneud sylwadau am ddatblygu polisïau o fewn Llywodraeth Cymru, sydd yn milwrio'n erbyn yr annibyniaeth sydd ei hangen i orfodi safonau amgylcheddol. Mae'r un yn wir am Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Mae angen corff newydd, sydd wedi'i benodi gan ac yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan, ac nid i Weinidogion Cymru yn unig. Nodwyd gennym wrth ymateb i ymgynghoriad cyfatebol DEFRA y byddai angen cyd-ddealltwriaeth eglur ynghylch dyletswyddau corff Cymreig newydd ac unrhyw gyrff newydd yn y DU, ac fe allai fod achos dros gorff ar gyfer y DU, wedi'i benodi gan ac yn atebol i bedair senedd y DU, ond ei fod yn ymwneud â'r holl feysydd y cyfeirir atynt ym mharagraffau 3.30-3.32 (gweler Cn 8 isod).

Cwestiwn 7: A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?

Nac ydy. Ni ddylai fod gan y corff unrhyw rôl o ran arolygu datblygu polisi nac o ran gweithredu fel cynghorydd (y pwyntiau bwled cyntaf a'r trydydd ym mhara 3.27), gan fod rhain eisoes yn cael eu cyflawni gan Adnoddau Naturiol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r dyfodol, fel y nodwyd eisoes. Byddai'r dyletswyddau hyn yn tynnu'r corff newydd i ganol y cyfaddawdu a'r anawsterau sydd ynghlwm wrth lunio polisi, ac yn raddol byddent yn tanseilio ei allu i orfodi safonau amgylcheddol mewn modd annibynnol. Mae ar yr amgylchedd angen corff all fod yn orfodwr diwyro a digymrodedd. Dyna pam y bu trefn bresennol yr UE mor effeithiol (e.e. trwy yrru cynnydd yng Nghymru o ran gwastraff, trwy fygwth dirwyon enfawr). Mae pellter cyrff yr UE yn ffactor allweddol sydd wedi eu helpu i fod mor amhleidiol a chadarn eu gorfodaeth.

Cwestiwn 8: Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?

Dylai'r cwmpas o ran materion amgylcheddol fod yn holl-gynhwysol, fel yr awgrymir ym mharagraffau 3.30 a 3.31. O ran paragraff 3.32, byddai'r ffin rhwng cyngor polisi a gorfodi a amlinellir yn ein hateb i Gn 7 yn datrys y broblem diffinio rolau a nodir yma. Byddai'n nonsens pe na byddai cwmpas y corff newydd yn cynnwys newid hinsawdd, sef yr her amgylcheddol fwyaf y mae'r ddynoliaeth yn ei hwynebu. Nid yw Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd wedi ymgymryd ag unrhyw waith gorfodi hyd yma. Rôl ymgynghorol sydd i'r Pwyllgor hwnnw, yn ôl ei wefan, yn hytrach nag ymgymryd â gwaith gorfodi; a chan fod aelodau'r Pwyllgor wedi eu penodi gan y Llywodraeth, mae'n anodd gweld sut allai byth ymgymryd â'r gwaith gorfodi sydd ei angen. Felly byddai corff gorfodi newydd yn eistedd yn esmwyth ochr yn ochr â rôl bresennol yr UKCCC yng Nghymru.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrff a gynigir yn briodol?

Nac ydym. Fe ddylai gynnwys pob corff cyhoeddus a ariennir gan Weinidogion Cymru, a hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, mae mwy o gyrff nag Adnoddau Naturiol Cymru yn unig yn effeithio ar yr amgylchedd yng Nghymru. Yn ail, mae'n debyg y bydd Gweinidogion yn parhau o dro i dro i newid y cyrff cyhoeddus sy'n bodoli yng Nghymru, gan gau rhai a chreu eraill. Gellid rhannu Adnoddau naturiol Cymru ei hun rywdro yn y dyfodol. Pwy a ŵyr? Dylai'r rhestr cyrff yn y ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn eglur yn wyneb newidiadau o'r fath; y ffordd orau i wneud hyn yw i unrhyw gorff a gyllidir gan Weinidogion Cymru fod o fewn cwmpas y corff arolygu o ran ei effaith ar yr amgylchedd.

Rydym hefyd yn cefnogi cynnwys, yn unol â phara 3.34, Gweinidogion y Goron, i'r graddau y byddai cymhwysedd datganoledig Cymru yn caniatáu deddfu yn hyn o beth. Pe byddai corff newydd ar gyfer y DU gyfan yn cael ei sefydlu gan y pedair senedd, yna byddai angen cynnwys holl ddyletswyddau Gweinidogion y Goron wedi eu cynnwys o fewn ei gwmpas. Yn ein hymateb i ymgynghoriad DEFRA fe wnaethom wrthwynebu'n gryf eithrio o'r cwmpas rai dyletswyddau Gweinidogion y Goron (e.e. parthed diogelwch cenedlaethol a'r Deddfau Cyllid).

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu bod yna gyrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?

Ydym; gweler yr ateb i Gn 9.

Cwestiwn 11: Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwylio fod?

Rydym yn cefnogi'r egwyddorion ym mharagraff 3.35; dylai'r corf fod yn tabeol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach nag i Weinidogion Cymru; cael ei archwilio'n annibynnol gan Swyddfa Archwilio Cymru; bod â strwythur penodi

annibynnol a ffynonellau cyllid annibynnol. Ni ddylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol am benodi pobl i'r corff nag am bennu lefel ei gyllid.

Cwestiwn 12: A ddylai corff goruchwylio gael gweithredu fel corff cynghori hefyd?

Na ddylai. Byddai hynny yn cyfaddawdu gallu'r corff i orfodi safonau amgylcheddol yn effeithiol. Byddai'n tynnu'r corff i berthynas lawer rhy agos â Gweinidogion Cymru a gweision sifil, a fyddai'n cymylu cyfrifoldebau'r corff a'i sugno i ystyried y polisïau a chyfaddawdu lletchwith sy'n hanfodol wrth lywodraethu. Pe digwyddai hynny, ni fyddai diwylliant y corff yn un fyddai'n ei alluogi i orfodi. Mewn sefyllfa o 'argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol', fel a gyhoeddwyd gan Lywodraeth a Chynulliad Cymru, mae gorfodi eglur a digymrodedd o gyfrifoldebau cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r fath argyfwng yn hanfodol – fel mewn unrhyw argyfwng.

Cwestiwn 13: A ddylai corff goruchwylio gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?

Dylai, wrth reswm.

Cwestiwn 14: Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?

Dylai hon fod yn swyddogaeth eang, am y rhesymau a roddwyd eisoes.

Cwestiwn 15: Pa bwerau ddylai corff feddu arnyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?

Fel y mae'r ddogfen ymgynghori yn dadlau, ni ddylai fod unrhyw leihad o ran gallu aelodau'r cyhoedd i gwyno, a dylai fod gan y corff y grym i ymchwilio i'w cwynion hynny, lle mae'n barnu y byddai hynny'n addas. Mae paragraff 3.49 yn ymddangos yn gywir i ni, a mae para 3.50, am hyrwyddo mynediad i ddinasyddion, yn bwysig dros ben.

Cwestiwn 16: Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwylio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?

Mae'r pwerau ffurfiol a gynigir yn ail bwnt bwled paragraff 3.52 yn gwbl hanfodol, ond yn ogystal mae'n angenrheidiol fod gan y corff arolygu hawl i godi dirwyon trwm. Mae'n ddigon posibl na fyddai'r cynnydd sylweddol a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru o ran gwaredu gwastraff ers datganoli wedi bod yn bosibl oni bai am y bygythiad o ddirwyon trymion gan fecanwaith gorfodi'r UE.

Fe allai'r mecanweithiau anffurfiol a amlinellir yn y pwynt bwled cyntaf, er eu bod yn ddeniadol ar yr olwg gyntaf, brofi i fod yn fagl beryglus. Os yw'r corff arolygu yn cael ei dynnu mewn "i geisio datrys" cŵyn benodol, fe fydd yn cael ei gyfaddawdu, ac os nad yw'r ateb cydweithredol yn foddhaol, yna ni fydd gan y corff yr annibyniaeth fyddai ei hangen i orfodi'n gadarn. Byddai'r dull hwn o weithio hefyd yn tanseilio'r pellter sydd ei angen i fod yn gorff gorfodi cydnerth.

Cwestiwn 17: Pam gamau gorfodi yn eich barn chi ddylai fod ar gael?

Fel y nodir yn yr ateb i Gn 16.

Eraill

Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?

Os gall gweddill y DU ymrwymo i'r 4 egwyddor sylfaenol, a safonau amgylcheddol eraill yr UE, byddai (gweler hefyd ein hatebion i Gn 6 & 8). Ond pe byddai Llywodraeth y DU, naill o ran materion a gedwir yn ôl neu o ran Lloegr, am ostwng safonau amgylcheddol (neu methu â chadw at safonau yr UE wrth iddynt godi – gweler Cn 2 uchod), camgymeriad dybryd fyddai cyfaddawdu safonau Cymru er mwyn ymostwng i safonau is yn Lloegr. Byddai felly yn hanfodol i unrhyw ddeddfwriaeth neu gyrff ar draws y DU gael eu sefydlu gan a bod yn atebol i bedair senedd y DU, fel na allai Senedd na Llywodraeth y DU ostwng safonau a gorfodaeth o fewn meysydd datganoledig ar ei liwt ei hun. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig yn y sefyllfa gyfredol lle mae Llywodraeth a Chynulliad Cymru wedi cyhoeddi 'argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol' (sefyllfa hir-dymor), ond nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny yn ddi-amheuaeth.

Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posib yn eich barn chi sydd eu hangen i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?

Bu Cytûn yn gyson ei gefnogaeth i ddatblygu mecanweithiau llywodraethiant cydlynus ar draws y DU o ran pob maes datganoledig, gan gynnwys y meysydd hynny a adenillir gan yr UE, gyda rôl arolygu cryf ar gyfer y seneddau cenedlaethol yn ogystal â'r llywodraethau perthnasol. Mae'r methiant parhaus i ddatblygu'r rhain yn achos pryder. Dylai unrhyw drefniadau i'r dyfodol fod yn gyhoeddus dryloyw ac atebol ac, o ran effaith ar yr amgylchedd a newid hinsawdd, fod yn agored i'w craffu gan y corff Cymreig newydd a chyrff cyfatebol ar draws y DU. Peryglon methu â sefydlu'r strwythurau cywir yw gyrru safonau i lawr neu cyfyngu ar uchelgais.